Urdd Gobaith Cymru

Urdd

# Polisi Preifatrwydd

**Fersiwn 3**

**Cyhoeddwyd: Mehefin 2024**

# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD YR URDD

## SUT RYDYN NI'N DELIO Â PHREIFATRWYDD

Mae'r Urdd yn elusen gofrestredig ac yn gwmni wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr. Rydyn ni'n cymryd preifatrwydd yn gwbl o ddifri ac rydyn ni eisiau i chi deimlo'n hyderus fod eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel yn ein dwylo ni.

Mae cyfraith diogelu data yn nodi bod angen i ni ('ni' yr Urdd) ddweud wrthych sut a pham yr ydym yn defnyddio'ch data personol a'n sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio'ch data.

Yn y ddogfen hon (ein "hysbysiad preifatrwydd"), rydyn ni'n esbonio sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol a beth yw ein rhesymau dros wneud hynny.

Hefyd, rydyn ni'n darparu gwybodaeth i chi am yr hawliau sydd gennych a sut gallwch chi gysylltu â ni.

Dylid darllen unrhyw wybodaeth ychwanegol am breifatrwydd ochr yn ochr â'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

## 1. AR GYFER PWY MAE'R HYSBYSIAD PREIFATRWYDD HWN?

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i unrhyw un sy'n:

- gwneud cais i ddod yn aelod o'r Urdd, boed ar-lein, dros y ffôn neu drwy'r ysgol neu'r gangen leol, gan gynnwys e.e. rhiant, athro neu gyswllt y darpar aelod.
- aelod o'r Urdd ac yn cymryd rhan yn unrhyw un o weithgareddau'r Urdd.
- mynychu gweithgareddau dydd / preswyl unrhyw un o wersylloedd yr Urdd.
- gwirfoddoli i'r Urdd gan gynnwys aelodau Bwrdd Ymddiriedolwyr a byrddau a phwyllgorau eraill yr Urdd.
- cyswllt / arweinydd cangen yr Urdd.
- defnyddio ein gwefan neu apiau.
- prynu nwyddau gennym, ar-lein neu dros y ffôn.
- cefnogi'r Urdd trwy noddi a chyfrannu'n ariannol ar weithgareddau'r Urdd.
- cysylltu â ni i holi neu wneud cwyn (boed yn bersonol, dros e-bost, ar y ffôn neu drwy'r post).
- tanysgrifio i'n cylchlythyrau / newyddion diweddaraf.
- mynychu cyfarfodydd ar lein neu yn gyhoeddus.
- cytuno i lenwi un o'n harolygon neu holiaduron neu ddarparu adborth i ni.
- cofrestru ac yn ddysgwr ar raglen brentisiaethau yr Urdd (gweler Atodiad 1).
- cael ei ffilmio ar ein systemau teledu cylch cyfyng (CCTV).
- ymwneud â ni ar y cyfryngau cymdeithasol.

- mynychu gweithgareddau a digwyddiadau sy’n agored i’r cyhoedd a / neu i rheiny nad sydd yn aelodau o’r Urdd.

## 2. CRYNODEB O’R GYFRAITH

Mae pob busnes a sefydliad yn y DU yn dod o dan y deddfau diogelu data sy’n rheoleiddio’r modd maent yn defnyddio gwybodaeth sy’n adnabod unigolion neu sy’n golygu bod modd adnabod unigolion (“gwybodaeth bersonol”).

Isod, rydyn ni’n crynhoi’r prif egwyddorion GDPR y DU yn datgan y bydd data personol yn:

- cael ei brosesu mewn dull cyfreithiol a theg mewn ffordd dryloyw i unigolion perthnasol.
- cael ei gasglu ar gyfer dibenion penodol, pendant a chyfreithiol heb gael ei brosesu ymhellach mewn modd sy’n anghydnaws â’r dibenion hynny.
- ddigonol, yn berthnasol a chyfyngedig i’r diben a’i proseswyd ar ei gyfer.
- gywir ac wedi ei diweddaru, a bydd gwybodaeth anghywir yn cael ei ddileu neu ei chywiro yn brydlon.
- cael ei gadw ar ffurf nad yw’n caniatáu adnabod gwrthrychau data yn hwy nag sydd ei angen.
- defnyddio mesurau technegol a sefydliadol priodol i ddiogelu hawliau a rhyddid unigolion.
- prosesu’n ddiogel ac yn erbyn colled ddamweiniol, distryw neu niwed, gan ddefnyddio mesurau technegol sefydliadol priodol.

Os am fwy o wybodaeth am y sail gyfreithlon a ddefnyddir i gadw data ar gyfer y gweithgareddau unigol, medrwch gysylltu â data@urdd.org

## 3. DIOGELWCH EICH DATA

Yn unol â Deddf Diogelu Data, rydym yn cynnal mesurau trefniadol a thechnegol priodol i'n galluogi ni i ddiogelu eich data personol gan gynnwys yr hyn sy'n cael ei drosglwyddo, ei storio neu ei brosesu fel arall, o ddinistrio, colli, newid, datgelu heb awdurdod neu fynediad anghyfreithlon. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys mesurau diogelu cyfrifiadurol a ffeiliau a chyfleusterau wedi'u diogelu.

Pan fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei throsglwyddo, ei storio a / neu ei phrosesu fel arall, y tu allan i'r AEE, byddwn yn sicrhau bod mesurau priodol ar waith i amddiffyn eich gwybodaeth bersonol (megis ymrwymo i gymalau cytundebol safonol).

## 4. EICH HAWLIAU CHI

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael mynediad at y data personol yr ydym yn eu prosesu amdanoch chi.

- i ofyn i ni gywiro anghywirdebau yn y data hynny.
- i wrthwynebu prosesu (mewn rhai amgylchiadau).
- i'ch data gael eu dileu (mewn rhai amgylchiadau).
- i gludadwyedd data mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data.

Gweler https://cy.ico.org.uk/for-the-public/

Y manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Customer Contact
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: www.ico.org.uk

Mae'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth yr ICO yn nodi eich hawliau chi o ran data personol. Gweler https://cy.ico.org.uk/for-the-public/

## 5. CYSWLLT RHEOLWR PREIFATRWYDD DATA'R URDD

Rydyn ni wedi penodi rheolwr preifatrwydd data i oruchwylio'r modd rydyn ni'n cydymffurfio â'r gyfraith diogelu data a'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn, y sail gyfreithiol i gadw data, neu'r modd rydyn ni'n delio â'ch gwybodaeth bersonol, cysylltwch â'n rheolwr preifatrwydd. Gallwch chi gael y manylion cyswllt perthnasol yn y fan yma:

Rheolwr Preifatrwydd Data - data@urdd.org

## 6. SUT BYDDWN NI'N DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH BERSONOL?

Yn yr adran hon, rydyn ni'n darparu rhagor o wybodaeth ar sut byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol, ar gyfer beth y byddwn yn ei defnyddio a sut rydyn ni'n cydymffurfio â'r prif rwymedigaethau sydd arnom dan y ddeddf diogelu data.

*Rydyn wedi rhannu'r manylion gwybodaeth bersonol i 3 categori sef:-*

1. Data personol craidd wrth ymaelodi a chymryd rhan yn narpariaeth yr Urdd sef, mynychu canolfannau preswyl, cymryd rhan yn nigwyddiadau / gweithgareddau a chystadlaethau'r Urdd, cynllun prentisiaethau, gwirfoddoli a chefnogi plant a phobl ifanc yn narpariaeth yr Urdd.
2. Data personol sensitif e.e. Ffurflenni iechyd, dogfennau hunaniaeth e.e. Pasbort

3. Data yn ymwneud â thaliadau ariannol.

**Diffiniad 'darpariaeth yr Urdd' yn y ddogfen hon yw**: ymaelodi gyda'r Urdd, mynychu canolfannau preswyl, cymryd rhan yn nigwyddiadau / gweithgareddau a chystadlaethau'r Urdd, ymgymryd â chwrs neu hyfforddiant, cynllun prentisiaethau, tanysgrifio i wasanaethau, gwirfoddoli a chefnogi plant a phobl ifanc yn narpariaeth yr Urdd

**Diffiniad staff yr Urdd** – staff cyflogedig, llawn a rhan amser, staff llawrydd ar gytundeb a gwirfoddolwyr sydd yn cefnogi darpariaeth yr Urdd a chynnal clybiau / adrannau / aelwyd a changhennau cymunedol.

## 7. DATA PERSONOL CRAIDD

Pan rydych chi'n gwneud cais i ddod yn aelod o'r Urdd, a chymryd rhan yn narpariaeth yr Urdd, naill i chi eich hun neu ar ran plentyn, bydd rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth bersonol mewn perthynas â'r unigolion perthnasol.

Byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu i ni i gyflawni ein contract (sef ar gyfer cofrestru aelodau ac i gasglu taliadau) i gynnal y ddarpariaeth ac am resymau gweinyddu cyffredinol.

Byddwn ni hefyd yn defnyddio'r wybodaeth bersonol (heblaw am wybodaeth am daliad a rhodd cymorth) os ydych chi'n cymryd yn y ddarpariaeth a drefnir gan yr Urdd.

Bydd eich gwybodaeth bersonol aelod o'r Urdd yn cael ei gadw am gyfnod yr aelodaeth neu hyd at ddyddiad eich pen-blwydd yn 26 oed oni bai eich bod wedi ein hysbysu yn wahanol.

Mae angen i gadw enw, manylion cyswllt a gwybodaeth gyffredinol arall am gyfnod yr aelodaeth er mwyn gallu:

- gweinyddu'r aelodaeth a chyflawni ein contract.
- ymateb i oblygiadau cyfreithiol a ddaw gan yr awdurdodau statudol.
- adrodd yn ôl i gyllidwyr allanol.
- ymateb i geisiadau gan gwmnïau yswiriant.
- ymateb i faterion yn ymwneud ag amddiffyn plant a phobl ifanc ac oedolion sydd yn agored i niwed.

Bydd gwybodaeth craidd NAD sydd yn gysylltiedig ag aelodaeth yr Urdd yn cael ei chadw am 36 mis. Mae hyn yn cynnwys e.e. ymwneud a'r Urdd trwy fynychu gwyliau teulu, ymholiadau, cyflwyno cwyn, ymateb i ymchwil, archebu nwyddau.

Bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw ar gyfer marchnata neu ar gyfer ymchwil, ar yr amod eich bod wedi cydsynio, oni bai fod y cydsyniad yn cael ei dynnu'n ôl, a hyd nes y byddwch chi'n gwneud hynny.

Os byddwch yn dewis gwrthod darparu'r wybodaeth bersonol i ni fe all effeithio ar eich gallu i gofrestru i ddod yn aelod ac i gymryd rhan yn narpariaeth yr Urdd.

Bydd data cofrestru ar gyfer y Rhaglen Brentisiaethau yn cael eu cadw am gyfnod o 5 mlynedd (gweler Atodiad 1).

Data yn ymwneud a'r Cyfyngau Cymdeithasol

Bydd unrhyw negeseuon neu sylwadau y byddwch chi'n eu hanfon atom ar y cyfryngau cymdeithasol (ar dudalen Facebook yr Urdd er enghraifft) yn cael eu rhannu dan delerau'r llwyfan cyfryngau cymdeithasol perthnasol (e.e. Facebook, Twitter, Instagram, TikTok), lle cawsant eu hysgrifennu a lle gallant gael eu rhannu'n gyhoeddus. Pobl eraill, nid ni, sy'n rheoli'r llwyfannau hyn. Nid ydym yn gyfrifol am y math hwn o rannu. Felly, cyn i chi wneud unrhyw sylwadau am unrhyw beth, dylech chi ddarllen telerau ac amodau a pholisïau preifatrwydd y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol y byddwch chi'n eu defnyddio. Drwy wneud hynny, byddwch chi'n deall sut byddan nhw'n defnyddio eich gwybodaeth, pa wybodaeth amdanoch chi fydd ar gael yn y parth cyhoeddus, a sut gallwch chi eu rhwystro rhag gwneud hynny os nad ydych chi'n fodlon â hynny.

## 8. DATA PERSONOL SENSITIF

Mae data categori arbennig yn fwy sensitif felly mae'n gofyn am fwy o ddiogelwch.

- Mae hyn yn cynnwys e.e. gwybodaeth feddygol, manylion hunaniaeth, manylion pasbort ar gyfer teithiau tramor.
- Gallai colli neu danseilio'r math hwn o ddata achosi risgiau mwy arwyddocaol i hawliau neu ryddid cyffredinol person e.e. eu rhoi mewn risg o ddioddef gwahaniaethu.

I gymryd rhan yn narpariaeth yr Urdd gall bod gofyn i ni dderbyn:-

- unrhyw fanylion meddygol perthnasol sy'n dod o fewn y categori gwybodaeth bersonol categori arbennig;

Mae rhaid i ni gael yr wybodaeth bersonol categori arbennig er mwyn i ni

- asesu pa mor addas yw'r person i gymryd rhan yn y ddarpariaeth dan sylw;
- addasu'r ddarpariaeth yn briodol os oes angen;
- paratoi ar gyfer/bod yn ymwybodol o unrhyw alergeddau sydd gan y person sy'n cymryd rhan;
- sicrhau iechyd a diogelwch pawb sy'n cystadlu/mynychu;

Byddwn ond yn rhannu gwybodaeth bersonol categori arbennig ag unrhyw unigolion sy'n gysylltiedig â darparu'r daith/gweithgaredd a gweithwyr meddygol proffesiynol, swyddogion cymorth cyntaf a staff arlwyo, fel y bo angen i'r pwrpasau uchod.

Byddwn yn cadw'r wybodaeth feddygol (a dyddiad geni os nad yn aelod) y person sy'n cymryd rhan am gyfnod hyd at 3 mis wedi'r gweithgaredd / darpariaeth. Os bydd damwain neu ddigwyddiad, bydd yr wybodaeth bersonol, gan gynnwys yr wybodaeth feddygol / iechyd ac unrhyw wybodaeth berthnasol ychwanegol am y ddamwain / digwyddiad, yn cael ei chadw am

3 blynedd ar ôl i'r person a fu'n cymryd rhan gyrraedd eu pen-blwydd yn 18 oed at bwrpas cwblhau adroddiadau RIDDOR.

Ar rai achlysuron bydd y wybodaeth byddwch yn darparu yn y ffurflen iechyd yn cael ei defnyddio i ddiweddaru eich proffil personol.

Os nad ydych yn darparu unrhyw wybodaeth feddygol, byddwn ni'n cymryd nad oes gennych ddim byd y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohono.

## 9. DATA YN YMWNEUD Â THALIADAU ARIANNOL

Ar gyfer talu (os oes angen) i gymryd rhan yn narpariaeth yr Urdd, bydd angen i chi ddarparu eich manylion banc neu gerdyn credyd i alluogi taliadau ac os yn berthnasol i weinyddu Rhodd Gymorth:-

Mae rhai i ni gael y wybodaeth isod yma er mwyn:-

- gallu cymryd taliad.

Dim ond i brosesu taliad y byddwn ni'n defnyddio eich manylion banc neu gerdyn credyd.

Bydd opsiwn i chi storio yn ddiogel eich manylion banc neu gerdyn credyd o fewn eich proffil unigol i alluogi prosesu taliadau wrth i chi fanteisio ar ddarpariaeth ar draws adrannau'r Urdd.

Bydd eich enw a'ch manylion cyswllt a manylion yr hyn rydych chi wedi'i brynu yn cael eu cadw am 12 mis yn eich proffil personol rhag ofn fod anghydfod am y nwyddau.

### Gwneud penderfyniadau wedi'w awtomeiddio

O bryd i'w gilydd bydd y gwybodaeth ydych yn gyflwyno i'r Urdd yn cael ei ddefnyddio mewn prosesau wedi'w awtomeiddio. Yn bennaf gan cwmnïau prosesu taliadau er mwyn dadansoddi y posibiliad o dwyll sydd yn ymwneud a taliad.

## 10. DEFNYDDIO EIN GWEFAN

Pryd bynnag rydych chi'n defnyddio ein gwefan, byddwn ni'n casglu'r wybodaeth ganlynol gennych fel mater o drefn er mwyn creu gwefan bwrpasol:

- Gwybodaeth dechnegol, gan gynnwys cyfeiriad protocol y rhyngrwyd a ddefnyddir i gysylltu eich cyfrifiadur â'r we, eich gwybodaeth mewngofnodi, y math o borwr a'r fersiwn, gosodiad parth amser, mathau a fersiynau o ategion porwr, system weithredu a llwyfan;
- Gwybodaeth am eich ymweliad, gan gynnwys y Lleolydd Adnoddau Unffurf ("URL") llawn, clicffrwd i, drwy ac o'n gwefan (gan gynnwys dyddiad ac amser), nwyddau y buoch yn edrych arnynt neu'n chwilio amdanynt, amseroedd ymateb tudalennau, gwallau lawrlwytho, cyfnod yr ymweliad â rhai tudalennau penodol, gwybodaeth am ryngweithio ar dudalennau (megis cliciau sgrolio a hofran llygoden), dulliau pori draw o'r dudalen.

Byddwn ni'n cadw'r wybodaeth am gyfnod o 26 mis ers eich ymweliad diwethaf.

Cysylltu â ni i holi neu wneud cwyn (boed yn bersonol, dros e-bost, dros y ffôn neu drwy'r post)

Byddwn yn eich gofyn i ddarparu gwybodaeth bersonol os ydych chi'n holi am ein darpariaeth a gwaith yr Urdd a/neu am wneud cwyn.

Mae rhaid i ni gael y wybodaeth hon er mwyn delio a'ch ymholiad / cwyn, i wella ein darpariaeth, ar gyfer datblygiad a hyfforddiant mewnol ac er mwyn gallu amddiffyn os oes unrhyw hawliadau/anghydfodau cyfreithiol.

Byddwn yn cadw cofnod o'ch ymholiad / cwyn hyd nes bydd wedi'i ddatrys ac am gyfnod o 12 mis wedyn.

Bydd cwynion, pryderon a honiadau yn ymwneud â diogelwch ac amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol.

Cwcis: Mae ein gwefan a gwasanaethau cysylltiedig megis ein siop yn gwneud defnydd o cwcis. Mae mwy o wybodaeth, gan gynnwys disgrifiad o'r cwcis mewn defnydd yn ein polisi cwcis sydd ar gael yma: https://www.urdd.cymru/cy/amdanom-ni/polisiau-urdd/polisi-cwcis

## 11. DATA PERSONOL A'N SUSTEMAU CCTV

Bydd ein systemau CCTV yn cadw eich llun ynghyd a'r amser a'r lleoliad er mwyn:-

- atal troseddau ac i amddiffyn adeiladau ac asedau rhag difrod, tarfu, fandaliaeth a throseddau eraill.
- sicrhau diogelwch personol y staff, ymwelwyr ac aelodau eraill o'r cyhoedd, ac i atal troseddau.
- cynorthwyo i gynnal y drefn gyhoeddus.
- cynorthwyo cyrff gorfodi'r gyfraith i atal troseddau, eu canfod, ymchwilio iddynt ac erlyn.
- rhoi cymorth gyda hawliadau sifil.
- i gynorthwyo gyda gwaith rheoli o ddydd i ddydd, gan gynnwys sicrhau iechyd a diogelwch y staff a phobl eraill.

Bydd y data a gofnodir ar y system teledu cylch cyfyng yn cael ei gofnodi'n ddigidol a'i storio'n ddiogel ar yriant caled. Bydd lluniau teledu cylch cyfyng yn cael eu dileu ar ôl 30 diwrnod.

Os oes digwyddiad wedi bod, a / neu pan fo'r heddlu, yr asiantaethau erlyn, cynrychiolwyr cyfreithiol wedi eu cynnwys a lle cofnodwyd bobl penodol a chadwyd lluniau ohonynt, bydd y cyfnod cadw arferol yn cael ei diddymu, a'r lluniau'n cael eu cadw hyd nes bydd y mater yn cael ei ddatrys.

Byddwn yn rhannu'r wybodaeth ar gais y canlynol:-

- yr heddlu.
- asiantaethau sy'n erlyn.
- cynrychiolwyr cyfreithiol perthnasol.

- pobl y mae eu delweddau wedi cael eu recordio a'u cadw.
- dim ond pan fydd ein Rheolwr Preifatrwydd Data o'r farn fod hynny'n briodol ar ôl ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol.
- Canolfan Mileniwm Cymru, sy'n darparu ac yn monitro'r system teledu cylch cyfyng ar ein safle yng Nghaerdydd.

## 12. MARCHNATA UNIONGYRCHOL - PRYD BYDDWN NI'N DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH BERSONOL AR GYFER MARCHNATA'N UNIONGYRCHOL?

Yn y bôn, ystyr "marchnata'n uniongyrchol" yw cyfeirio unrhyw ddeunyddiau marchnata neu hysbysebu atoch chi yn benodol. Hoffen ni fod yn gallu anfon deunydd marchnata uniongyrchol atoch chi o bryd i'w gilydd i roi gwybod am ein cynigion diweddaraf a'r nwyddau a'r gwasanaethau a allai fod o ddiddordeb i chi. Ond yn y DU, mae busnesau a sefydliadau sy'n defnyddio gwybodaeth bersonol ar gyfer hyn yn dod dan reolau penodol yn ymwneud â marchnata uniongyrchol, yn ogystal â chyfraith diogelu data).

Os ydych chi wedi datgan cydsyniad i wneud hynny, byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol i farchnata'n uniongyrchol:

**Gorfodol** - wrth ymaelodi, mae optio mewn sylfaenol yn orfodol, nid oes dewis i optio allan.

**Dewisol** - Optio mewn i faes diddordeb sydd wedi eu rhestru gan yr Urdd.

Gallwch chi ofyn i ni roi'r gorau i anfon deunydd marchnata uniongyrchol atoch unrhyw bryd drwy fynd i'r wefan neu gysylltu â data@urdd.org

Hefyd, bob tro y byddwn ni'n cysylltu â chi yn electronig neu drwy'r post, gallwch chi ddewis peidio â chael rhagor o ddeunydd marchnata uniongyrchol.

## 13. RHANNU EICH GWYBODAETH BERSONOL GYDA PHOBL ERAILL

Weithiau, bydd angen i ni rannu eich gwybodaeth bersonol â thrydydd partïon er mwyn :-

- rhedeg ein sefydliad yn effeithlon, effeithiol ac yn ddiogel.
- sicrhau bod gennym restr gywir o aelodau er mwyn i'r aelodau gael mynediad at ddigwyddiadau a gweithgareddau'r Urdd.
- datgelu eich gwybodaeth bersonol i sefydliadau megis y llysoedd neu'r heddlu neu i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n berthnasol i ni a / neu i atal twyll ariannol neu droseddau.
- gwirio a chadarnhau manylion aelodaeth, megis galluogi manteisio ar y 'Gronfa i Bawb' a gostyngiadau tal aelodaeth.
- cydymffurfio a gofynion reoleiddio.
- cael cyngor proffesiynol a chamau cyfreithiol.

Ni fyddwn ni'n gwerthu eich gwybodaeth bersonol ymlaen i drydydd partïon ar gyfer marchnata.

**Pwy yw ein partneriaid gwasanaeth a darparu**

Nid ydym wedi rhestru enwau ein holl bartneriaid gwasanaeth yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn oherwydd byddwn ni'n delio â gwahanol ddarparwyr o bryd i'w gilydd. Ond os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am ein darparwyr gwasanaeth cyfredol, gallwch gael hynny drwy gysylltu â'r Rheolwr Preifatrwydd Data - data@urdd.org

**Dyma prif gategorïau partneriaid gwasnaeth a darparu**

- Cyflenwyr ac isgontractwyr sy'n cael eu defnyddio gennym i gyflenwi darpariaeth yr Urdd;
- Asiantaethau marchnata sy'n cael eu defnyddio gennym i greu a/neu ddarparu hysbysebion a deunyddiau cyhoeddusrwydd eraill ar ein rhan;
- Sefydliadau sy'n cael eu defnyddio gennym i helpu i wella ein sefydliad a'n digwyddiadau, megis Ymchwil Arad;
- Darparwyr rhwydweithau a/neu sustemau cwmwl i gyflenwi, cynnal a chadw a/neu wella ein rhwydwaith TG o bryd i'w gilydd;
- Darparwyr dadansoddeg a pheiriannau chwilio i'n cynorthwyo i wella ein gwefan ac apiau, megis Lime Green Tangerine;
- Cyllidwyr yr Urdd, pan rydych chi wedi cymryd rhan yn narpariaeth yr Urdd sydd wedi eu hariannu gan gyllid cyhoeddus e.e. Llywodraeth Cymru.

## 14. AMGYLCHIADAU PRYD BYDDWN NI'N ANFON EICH GWYBODAETH BERSONOL Y TU ALLAN I'R ARDAL ECONOMAIDD EWROPEAIDD -

Rydym yn rhagweld ar achlysuron penodol trwy ein cyflenwyr a phartneriaid sydd yn gweithredu tu allan i'r AEE, a bydd angen i ni anfon eich data personol y tu allan i'r AEE.

Os ydyn ni'n trosglwyddo eich data personol y tu allan i'r AEE, byddwn ni'n defnyddio un o'r dulliau diogelu hyn i wneud yn siŵr ei fod yn cael ei ddiogelu:

- Yr unig wledydd y byddwn ni'n ei drosglwyddo iddynt yw gwledydd y tu allan i'r AEE y mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi penderfynu bod ganddynt lefel ddigonol o amddiffyniad i ddata personol. Gallwch chi gael rhagor o wybodaeth am wledydd o'r fath yn y fan yma https://ec.europa.eu/info/law/law-topic/data-protection_en; neu
- Byddwn ni'n sefydlu contract ysgrifenedig rhyngom ni a'r sawl sy'n derbyn y data (DPA – Data protection agreement a defnydd o Standard contractual clauses), a'r contract yn ymgorffori cymalau'r Comisiwn Ewropeaidd am drosglwyddo data personol y tu allan i'r AEE. Gallwch chi ddysgu mwy am gymalau o'r fath yn y fan yma ICO/international transfers; neu
- Byddwn ni'n gofyn i chi ddatgan cydsyniad.

## 15. EICH HAWL I DYNNU EICH CYDSYNIAD YN ÔL

Pan fyddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol ar sail eich cydsyniad chi, mae gennych chi hawl i dynnu eich cydsyniad yn ôl unrhyw bryd. I dynnu eich cydsyniad yn ôl, cysylltwch â data@urdd.org. Unwaith y byddwn ni wedi cael gwybod eich bod wedi tynnu eich cydsyniad

yn ôl, ni fyddwn ni mwyach yn prosesu eich gwybodaeth ar gyfer y rheswm neu'r rhesymau gwreiddiol, oni bai ein bod ni'n gallu seilio ein gwaith prosesu ar sail gyfreithiol arall.

## 16. NEWIDIADAU I'N HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Mae'n bosibl y byddwn ni'n diweddaru'r hysbysiad preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd. Os ydyn ni'n diweddaru llawer, byddwn ni'n darparu hysbysiad preifatrwydd newydd i chi. Mae'n bosibl y byddwn ni hefyd yn rhoi gwybod i chi o bryd i'w gilydd am y modd y mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu.

Polisi Preifatrwydd

Fersiwn 3

Mehefin 2024

Arwyddwyd



**Sian Lewis**
**Prif Weithredwr**

**Atodiad 1 – At sylw yr Adran Brentisiaethau yn unig.**

**Casglu a storio data – cofrestru ar gyfer rhaglen brentisiaeth**

Mae Urdd Gobaith Cymru yn casglu data un unol a [Hysbysiad Preifatrwydd Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru F70 2023 [HTML] | LLYW.CYMRU] ar bob unigolyn a chofrestrwyd fel prentis gydag Urdd Gobaith Cymru, gan gynnwys unrhyw waith darparu ar y cyd gyda phartneriaid eraill.

Mae'r wybodaeth yma yn cael ei storio gan Urdd Gobaith Cymru am 5 mlynedd, yn unol â chanllawiau'r cyrff gwobrwyo yr ydym yn eu defnyddio.

Rhannir y wybodaeth a chasglir gyda Llywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn storio'r data hwn am 10 mlynedd wedi diwedd y contract dysgu seiliedig ar waith perthnasol. Mae yna wybodaeth ynglŷn â diben storio'r wybodaeth hon a'r gael yn yr hysbysiad preifatrwydd uchod.

Dyletswydd Urdd Gobaith Cymru yw sicrhau bod pob prentis (neu ddysgwr) yn derbyn copi a derbyn cyfle i ddarllen Hysbysiad Preifatrwydd Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru wrth ymrestru a'r rhaglen neu gymhwyster.

Y data personol sydd yn cael eu casglu yw:

- Dynodydd unigryw'r dysgwr (sy'n cael ei greu gan Lywodraeth Cymru)
- Rhif adnabod y dysgwr (a grëwyd gan eich darparwr dysgu)
- Cyfenw
- Enw(au) cyntaf
- Cyfeiriad
- Cod Post
- Rhif ffôn
- Rhif Yswiriant Gwladol
- Cenedl
- Eich cyfenw yn 16 oed
- Dyddiad geni
- Hunaniaeth genedlaethol
- Yr ysgol ddiwethaf yr aethoch iddi
- Y flwyddyn y gadawsoch yr ysgol
- Rhif dysgwr unigryw (a grëwyd gan y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu)
- P'un a ydych yn weithiwr mudol
- Dangosydd anhawster neu anabledd dysgu
- Cod post (ar ddechrau'r rhaglen ddysgu)

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn prosesu'r data categori arbennig hwn am ddysgwyr:

- Ethnigrwydd

- Math o anabledd
- Cyflwr iechyd

Mae yn ddewisol i ddarparu’r data ar gyfer y tri chategori hyn.

Mae Urdd Gobaith Cymru hefyd yn rhannu gwybodaeth gyfyngedig gyda’r Cyrff Gwobrwyo er mwyn cofrestri dysgwyr ar gymwysterau.